Priodas yn dod i ben

Pan ddaw'ch priodas i ben, mwy na thebyg y bydd gennych lawer o bethau i'w sortio gyda'ch partner, sy'n gallu cynnwys gofal plant, arian, tai, ac unrhyw eiddo neu feddiannau eraill. Fe allech chi a'ch partner benderfynu gwahanu'n anffurfiol, heb fynd i'r llys. Fe allech lunio **cytundeb gwahanu**, naill ai gyda help cyfreithiwr neu heb hynny, yn gosod trefniadau i'r dyfodol. Sut bynnag, mae'n ddoeth i ddefnyddio cyfreithiwr os ydych chi am wneud hyn oherwydd y canlyniadau hirdymor posibl i'ch sefyllfa ariannol.

Os ydych chi am ddiweddu'ch priodas yn ffurfiol, fe fydd rhaid i chi geisio i'r llys i gael **ysgariad**. Os ydych chi'n penderfynu cael ysgariad mae'n ddoeth ceisio sortio unrhyw anghytundebau ynglŷn â materion ymarferol cyn mynd i'r llys. Bydd hyn yn lleihau'r costau cyfreithiol a gall hefyd leihau gwrthdaro a straen achosion ysgariad.

Ysgariad

Allwch chi ddim gwneud cais am ysgariad hyd nes y byddwch chi wedi bod yn briod am o leiaf un flwyddyn.

Os nad ydych chi na'ch partner yn gwrthwynebu'r ysgariad, cyfeirir ato fel **ysgariad diamddiffyn**. Mae gweithdrefn syml i ddelio â hyn sy'n golygu nad oes angen help cyfreithiwr. Sut bynnag, mae'n ddoeth i ymgynghori â chyfreithiwr am gyngor cyffredinol cyn dechrau achosion ysgariad, yn enwedig os oes anghydfodau ynglŷn â phlant, eiddo neu arian na allwch chi a'ch partner eu datrys.

Os ydych chi am ddechrau achosion ysgariad mewn achos diamddiffyn, fe fydd angen i chi gael y ffurflenni angenrheidiol. Fe allwch chi gael y rhain oddi wrth unrhyw lys sirol (neu'r gofrestrfa ysgariad yn Llundain). Fe allwch ddod o hyd i'r cyfeiriad trwy edrych o dan 'llysoedd' yn y llyfr ffôn lleol. Fe allwch chi gael help i gwblhau'r ffurflenni oddi wrth Gyngor ar Bopeth - gweler o dan Gymorth ychwanegol.

Fe all gymryd i fyny hyd at chwe mis i'r llys ganiatáu ysgariad diamddiffyn, ond yn hirach os oes materion plant ac arian ynghlwm.

Os ydych chi neu'ch partner yn anghytuno â'r ysgariad, cyfeirir ato fel **ysgariad amddiffynedig** a dylech chi gael help cyfreithiwr. Os ydych chi am wneud cais am ysgariad a'ch partner yn gwrthwynebu, fe fydd yn rhaid i chi siarad â'ch cyfreithiwr yn gyntaf.

Bydd y llys yn caniatáu ysgariad i chi os allwch chi neu'ch partner ddangos fod eich priodas **wedi chwalu'n anadferadwy**. Er mwyn i briodas fod wedi chwalu'n anadferadwy, mae'n rhaid profi un o'r canlynol:

- godineb
- ymddygiad afresymol
- enciliad
- byw ar wahân am ddwy flynedd gyda chaniatâd
- byw ar wahân am bum mlynedd heb ganiatâd.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Mae'n dibynnu ar eich amgylchiadau, ond fe allech chi gael cymorth ariannol tuag at eich ysgariad - gweler o dan Gymorth ychwanegol.

Cyfryngu teuluol

Cyn neu yn ystod achosion ysgariad efallai y byddwch am ddefnyddio gwasanaeth cyfryngu. Gall cyfryngu eich helpu chi a'ch partner i ddod at benderfyniadau ar y cyd ynglŷn â threfniadau ar gyfer y dyfodol. Mae'n ddull amgen i gyfreithiwr yn negydu ar eich rhan, neu gael y llysoedd yn penderfynu ar eich rhan. Sut bynnag, nid yw cyfryngu yn gyfnewid am gyngor cyfreithiol. Anogir chwi i ymgynghori â chyfreithiwr yn ystod y broses cyfryngu i'ch cynghori ar ganlyniadau personol eich penderfyniadau. Ar ddiwedd y cyfryngu gellir defnyddio eich penderfyniadau fel sail i drefniant ysgariad, neu gytundeb gwahanu cyfreithiol.

Os hoffech chi wneud cais i'r llys am orchymyn i ddatrys anghydfod ynglŷn â phlant, arian neu eiddo, yn y rhan fwyaf o achosion fe fydd yn rhaid i chi gysylltu â chyfryngwr a threfnu Cyfarfod Cyfryngu a Gwybodaeth i ddarganfod p'un ai eich bod yn gallu datrys yr anghydfod heb orfod mynd i'r llys. Gellir cynnal y cyfarfod ar y cyd neu ar wahân. Bydd yna rai sefyllfaoedd lle na fydd yn rhaid i chi fynychu cyfarfod, er enghraifft, pan fydd yr heddlu yn ymchwilio i drais domestig.

Gallwch ddod o hyd i wasanaeth cyfryngu teuluol lleol ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn: www.familymediationhelpline.co.uk neu ar wefan y gwasanaeth Cyfryngu Teuluol Cenedlaethol yn www.nfm.org.uk.

Cewch hefyd wybodaeth am gyfryngwyr teuluol ar wefan ADR Now: www.adrnow.org.uk.

Mae'n bosib y cewch gymorth ariannol i'ch helpu i dalu am gyfryngu teuluol. Bydd hyn yn dibynnu ar eich amgylchiadau.

Mewn rhai achosion, lle mae anghydfodau ynglŷn â gofal plant ynghlwm, fe fydd y llys yn disgwyl i chi ddefnyddio'r gwasanaeth cyfryngu.

Trefniadau Ariannol pan ddaw priodas i ben

Pan ddaw'ch priodas i ben, fe allwch chi a'ch partner ill dau wneud cais i'r llys am gynhaliaeth oddi wrth y llall. Fe allwch chi wneud hyn os oes gennych blant ai peidio neu os ydych yn ysgaru ai peidio. Yn y mwyafrif o achosion, bydd disgwyl i chi drefnu cyfarfod gyda chyfryngwr teuluol cyn bydd y llys yn ystyried eich cais. Bydd y gorchymyn cynhaliaeth fel arfer yn stopio os bydd yr un sy'n derbyn cynhaliaeth yn dechrau byw gyda phartner arall.

Os ydych chi wedi bod yn ddibynnol ar eich partner am arian a ddim yn gweithio, efallai y byddwch yn gallu hawlio budd-daliadau, neu gredydau treth - gweler o dan Gymorth ychwanegol.

Eiddo a meddiannau

Pan ddaw priodas i ben cymerir pob eiddo sydd yn berchen i chi a'ch partner i ystyriaeth gan y llys wrth benderfynu ar drefniant ariannol. Bydd hyn yn cynnwys

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

unrhyw eiddo sy'n berchen i chi neu'ch partner yn unigol naill ai cyn neu yn ystod y briodas. Os bydd un ohonoch yn ceisio cuddio eich perchnogaeth o eiddo neu feddiannau, mae'n debygol y cewch eich cosbi gan y llys.

Gall fod yn anodd penderfynu ar berchnogaeth meddiannau'r cartref a gafwyd yn ystod y briodas. Os rhoddodd un partner anrheg i'r llall a bod y bwriad hwn yn glir, mae'r anrheg yn eiddo i'r un y rhoddwyd ef iddo/iddi. Fe fydd angen i chi hefyd sortio perchnogaeth meddiannau a brynwyd ar y cyd neu a brynwyd gan un partner ar gyfer defnydd ar y cyd. Os na allwch chi gytuno ar hyn, fe fydd angen i chi fynd i'r llys, er mae'n debygol mai dyma'r dull lleiaf llwyddiannus o ddatrys y broblem. Yn gyffredinol, disgwylir i'r partner gyda'r hwn/hon mae'r plant yn byw i gadw nwyddau ac offer domestig.

Tai

Gall llys orchymyn pwy ddylai aros yn y cartref yn y tymor byr ac yn yr hir dymor. Mae gennych chi a'ch partner yr hawl i aros yn y cartref hyd nes y bydd ysgariad, neu hyd nes y bydd un ohonoch yn cael gorchymyn i adael trwy waharddeb llys.

Os penderfynwch chi adael eich cartref, yn dibynnu ar eich amgylchiadau fe allwch chi wneud cais am lety hir dymor oddi wrth eich awdurdod lleol fel person digartref - gweler o dan Gymorth ychwanegol.

Tenantiaeth

Os ydych chi a'ch partner yn ysgaru, gellir penderfynu ar hawl hir dymor eich tenantiaeth yn ystod yr achosion ysgariad. Gall y llys drosglwyddo'r denantiaeth i'ch enw chi, hyd yn oed os mai'ch partner ydyw'r unig denant, neu os oeddech chi a'ch partner yn denantiaid ar y cyd. Sut bynnag, os ydych chi'n gwahanu ac nid yn ysgaru, bydd y llys yn cytuno i drosglwyddo tenantiaeth dim ond os bydd yn penderfynu ei fod er lles eich plant.

Os ydych chi am wneud cais i drosglwyddo tenantiaeth, fe ddylech chi wneud hyn ar yr un pryd ag y byddwch yn gwneud cais am ysgariad. Os na wnewch chi hyn, efallai na fydd yn bosibl i'r denantiaeth gael ei throsglwyddo ar ddyddiad diweddarach.

Perchen breswylwyr

Os ydych chi a'ch partner yn ysgaru, gellir penderfynu ar hawl hir dymor perchnogaeth eich eiddo yn ystod yr achosion ysgariad. Mae gan y llys yr awdurdod i drosglwyddo eiddo ni waeth be fo'r berchnogaeth wreiddiol. Sut bynnag, os ydych chi'n gwahanu ac nid yn ysgaru, bydd y llys yn cytuno i drosglwyddo perchnogaeth eiddo dim ond os bydd yn penderfynu ei fod er lles eich plant.

Os ydych chi'n penderfynu symud allan, fe ddylech chi gymryd camau i ddiogelu'ch hawl i symud yn ôl ar ddyddiad diweddarach, ac i stopio'ch partner rhag gwerthu'r eiddo heb i chi wybod. Mae mwy o wybodaeth am hyn ar gael ar wefan y gofrestrfa tir yn www.landreg.gov.uk.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Plant

Ar ddiwedd eich priodas, fe fyddwch chi a'ch partner yn gyfrifol am gynnal eich plant yn ariannol, does wahaniaeth gyda phwy mae'r plant yn byw.

Os nad yw'n bosibl dod i ddealltwriaeth wirfoddol ynglŷn â gofal eich plant, gellir gofyn i lys am ymyrryd. Yn y mwyafrif o achosion, bydd y llys yn disgwyl i chi drefnu cyfarfod gyda chyfryngwr teuluol yn gyntaf. Gall y llys wneud gorchmynion ynglŷn â gyda phwy y dylai'r plant fyw. Bydd y gorchymyn fel arfer yn caniatáu cyswllt rhwng y plentyn a'r rhiant nad yw'n byw gydag ef/hi, ac eithrio fod yna amgylchiadau eithriadol.

Os yw'ch plant yn byw gyda chi ar ôl i'ch priodas ddod i ben fe allwch ddefnyddio'r **Asiantaeth Cynnal Plant** (CSA) i gael cynhaliaeth i'ch plant, er nad oes dim rhaid i chi wneud hyn.

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Help gyda chostau cyfreithiol
- Pa fudd-daliadau sydd ar gael i mi?
- Ymgynghori â chyfreithiwr
- Dod o hyd i lety

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 9 Medi 2011, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawr lwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr